DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN
CHILDREN IN NEED

















DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN
CHILDREN IN NEED













DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN
CHILDREN IN NEED









CYSTADLEUAETH POBI PUDSEY
PUDSEY BAKING COMPETITION

Da iawn i bawb a gymerodd ran yng Nghystadleuaeth Pobi Cacen Pudsey eleni.
Roedd yn bleser mawr gweld ystod eang o gacennau creadigol a lliwgar, ac roedd safon y cynigion yn arbennig o dda.
Diolch o galon i Mark Lane am gymryd yr amser i feirniadu'r gystadleuaeth ac am ei haelioni wrth ddarparu gwobrau gwych i'r disgyblion.
Llongyfarchiadau mawr i Delilah am ennill y gystadleuaeth cynradd ac i Emilia am ennill y gystadleuaeth uwchradd. Gwych iawn ferched!

Well done to everyone who took part in this year's Pudsey Cake Baking Competition. It was a pleasure to see such a wide range of creative and colourful cakes, and the standard of entries was exceptionally high.
A heartfelt thank you to Mark Lane for taking the time to judge the competition and for his generosity in providing wonderful prizes for the pupils.
Congratulations to Delilah for winning the primary competition and to Emilia for winning the secondary competition. Fantastic achievement, girls!

















CYSTADLEUAETH POBI PUDSEY
PUDSEY BAKING COMPETITION













TAFLU SBWNG
SPONGE THROWING















DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN
CHILDREN IN NEED



















MYFYRIO AR DDYDD Y COFIO
REFLECTING ON REMEMBRANCE DAY

Wythnos hyn, daeth disgyblion a staff ein hysgol ynghyd ar gyfer dwy funud o dawelwch fel rhan o Ddydd y Cofio. Roedd hon yn foment bwysig i fyfyrio ar wasanaeth ac aberth y rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog ac wedi colli eu bywydau mewn gwrthdaro.

Mae Dydd y Cofio yn gyfle gwerthfawr i helpu ein pobl ifanc i ddeall pwysigrwydd cofio'r gorffennol, gwerthfawrogi'r heddwch rydym yn ei fwynhau heddiw, ac ystyried effaith rhyfel ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled y byd.

Diolch i'n disgyblion am eu parch a'u hymddygiad rhagorol wrth gymryd rhan yn y foment arbennig hon o gofáu a myfyrio.

This week, pupils and staff at our school came together to observe two minutes' silence as part of Remembrance Day. This important moment provided an opportunity to remember and honour those who have served in the armed forces and those who have lost their lives in conflicts.

Remembrance Day helps our young people develop an understanding of the importance of remembering the past, appreciating the peace we enjoy today, and reflecting on the impact that war has on individuals, families and communities across the world.

Thank you to all our pupils for the respect and maturity they showed while taking part in this special moment of remembrance and reflection.

MEITHRIN A DERBYN

Mae plant Meithrin a Derbyn wedi bod yn brysur yn ymarfer llythyren yr wythnos, P. Maent hefyd wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol yn ymwneud â'r pabi coch.

Our Nursery and Reception children have been busy practising the letter of the week, P. They have also taken part in a variety of creative activities linked to the red poppy.



















TOCYNNAU SCHOOL OF ROCK TICKETS

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod tocynnau ein cynhyrchiad ysgol, School of Rock, ar werth nawr.
Ymunwch â ni rhwng 8-10fed o Ragfyr am sioe gofiadwy sy'n llawn cerddoriaeth wych, egni a thalent arbennig ein disgyblion.
Mae tocynnau ar gael drwy gwefan Theatr Felinfach. Rydym yn eich annog i archebu'n gynnar er mwyn osgoi siom.
Edrychwn ymlaen at eich gweld yno ac at gefnogi ein cast a'n criw talentog!

We are delighted to announce that tickets for our school production, School of Rock, are now on sale.
Join us from 8–10th December for what promises to be an unforgettable show, packed with incredible music, energy and talent from our pupils.
Tickets are available from Theatr Felinfach website. We encourage you to book early to avoid disappointment.
We look forward to seeing you there and supporting our talented cast and crew!

THE NEXT GENERATION SCHOOL of ROCK THE MUSICAL

SCAN ME!

Theatr Felinfach

YMARFERION EIN CYNHYRCHIAD YSGOL
OUR SCHOOL PRODUCTION PRACTICES

Wrth i'r cyffro gynyddu ar gyfer ein cynhyrchiad o School of Rock, mae ein disgyblion talentog wedi bod yn gweithio'n galed tu ôl i'r llenni. Mae ymarferion yn cael eu cynnal yn ystod amserau egwyl a chinio, ar ôl ysgol ac ar ddydd Sul. Mae ymroddiad ac ymrwymiad ein disgyblion yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau llwyddiant y cynhyrchiad. Hoffwn hefyd ddiolch yn ddiffuant i rieni a gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus wrth helpu disgyblion i fynychu'r sesiynau pwysig hyn.
Er mwyn lleihau unrhyw effaith ar ddysgu ac amser gwersi, bydd nifer o ymarferion yn parhau i gael eu cynnal ar ddyddiau Sul ac ar ddiwrnod HMS. Mae mynychu ymarferion yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynhyrchiad yn llwyddiant ac er mwyn gallu cynllunio'r ymarferion yn effeithiol.
Os na all disgybl fynychu unrhyw ymarfer, mae'n bwysig iawn bod hyn yn cael ei gyfathrebu ymlaen llaw i Miss Meleri Morgan, ynghyd â'r rheswm dros yr absenoldeb. Bydd hyn yn ei helpu i gynllunio'r ymarferion yn briodol a sicrhau bod pob aelod o'r cast yn cael y gefnogaeth angenrheidiol.
Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Edrychwn ymlaen at rannu sioe arbennig iawn gyda'n cymuned yn yr wythnosau nesaf.

YMARFERION DYDD SUL, 10-3:

SUNDAY PRACTICES, 10-3:

22/11/2026

29/11/2026

06/12/2026

DIWRNOD HMS, 8:40-3:15:

INSET DAY, 8:40-3:15:

16/11/2026



As the excitement continues to build for our production of School of Rock, our talented pupils have been working hard behind the scenes. Rehearsals are taking place during break and lunch times, after school and on Sundays. The dedication and commitment shown by our pupils are key to ensuring the success of this production. I would also like to express our sincere thanks to parents and carers for your ongoing support in helping pupils attend these important sessions.
To minimise any impact on learning and lesson time, many rehearsals will continue to be held on Sundays and during our INSET day. Regular attendance at rehearsals is essential to ensure the success of the production and to allow for effective rehearsal planning.
If a pupil is unable to attend a rehearsal, it is very important that this is communicated in advance with Miss Meleri Morgan, along with the reason for the absence. This will assist in planning the rehearsals appropriately and ensuring that every member of the cast receives the necessary support.
Thank you once again for your continued support and cooperation. We look forward to sharing a very special production with our community in the coming weeks.

NEGES DIOGELWCH AR-LEIN
ONLINE SAFETY REMINDER

Hoffem atgoffa rhieni a gofalwyr o bwysigrwydd monitro gweithgaredd a sgyrsiau ar-lein eich plentyn ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau negeseuon fel WhatsApp.
Yn ddiweddar, rydym wedi dod yn ymwybodol o grŵp negeseuon mawr sy'n cynnwys plant oedran ysgol uwchradd. Er y gallai llawer o ddisgyblion gredu bod y grwpiau hyn yn cynnwys ffrindiau neu blant y maent yn eu hadnabod o'n hysgol yn unig, nid yw hyn bob amser yn wir. Gall grwpiau ar-lein dyfu'n gyflym o ran maint a gallant gynnwys unigolion o'r tu allan i'r ardal leol neu bobl nad ydynt yn adnabyddus yn bersonol i aelodau'r grŵp.
Rydym yn annog pob rhiant a gofalwr i:

- Gwirio'n rheolaidd pa apiau a llwyfannau y mae eu plentyn yn eu defnyddio.
- Trafod diogelwch ar-lein ac ymddygiad digidol cyfrifol gyda'u plentyn.
- Atgoffa plant i beidio byth â rhannu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys eu hysgol, cyfeiriad, rhif ffôn neu ffotograffau, gyda phobl nad ydynt yn eu hadnabod.
- Anogwch blant i roi gwybod am unrhyw negeseuon, cynnwys neu gyswllt sy'n gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.
- Adolygu gosodiadau preifatrwydd ac aelodaethau grŵp yn rheolaidd.

Fel ysgol, diogelwch disgyblion yw ein blaenoriaeth uchaf bob tro. Er na allwn fonitro gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol, rydym yn annog teuluoedd i fod yn wyliadwrus ac i gynnal sgyrsiau agored gyda'u plant am aros yn ddiogel ar-lein.
Diolch am eich cefnogaeth barhaus i helpu i gadw ein plant yn ddiogel yn yr ysgol ac ar-lein.

We would like to remind parents and carers of the importance of monitoring your child's online activity and conversations on social media and messaging platforms like WhatsApp..
Recently, we have become aware of a large messaging group involving children of secondary school age. Whilst many pupils may believe that these groups are made up solely of friends or children they know from our school, this is not always the case. Online groups can quickly grow in size and may include individuals from outside the local area or people who are not known personally to group members.
We encourage all parents and carers to:

- Regularly check which apps and platforms their child is using.
- Discuss online safety and responsible digital behaviour with their child.
- Remind children never to share personal information, including their school, address, phone number or photographs, with people they do not know.
- Encourage children to report any messages, content or contact that makes them feel uncomfortable.
- Review privacy settings and group memberships regularly.

As a school, pupil safety remains our highest priority. Whilst we cannot monitor activity that takes place outside of school, we encourage families to remain vigilant and to maintain open conversations with their children about staying safe online.
Thank you for your continued support in helping to keep our children safe both in school and online.

MEDDYLIWCH CYN DEFNYDDIO RHWYDWEITHIAU CYMDEITHASOL

GOFYNIAD OEDRAN

Mae WhatsApp yn gosod isafswm oedran o 13 ar gyfer defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig. Felly, ni ddylai unrhyw un o dan 13 oed ddefnyddio WhatsApp, ac maent yn torri telerau ac amodau'r platfform

MEDDWL AM YR EFFAITH

Ystyriwch sut y gallai eich neges effeithio ar bobl eraill. Ceisiwch osgoi cynnwys a allai achosi embaras, camarwain, sarhau neu niweidio rhywun. Osgoi bod yn rhan o sgyrsiau grŵp mawr gyda phobl nad ydych yn eu hadnabod. Gadewch grwpiau sy'n dod yn amhriodol, a rhowch wybod am unrhyw bryderon.

DIOGELU EICH PREIFATRWYDD

Ceisiwch osgoi rhannu gwybodaeth bersonol sensitif, fel eich cyfeiriad, cyfrineiriau, rhif ffôn, neu fanylion preifat amdanoch chi eich hun neu eraill. Cofiwch y gellir tynnu a rhannu sgrinluniau.

CANLLAWIAU RHIENI

Byddwch yn ymwybodol o ba apiau y mae eich plant yn eu defnyddio. Trafodwch ymddygiad priodol ar-lein yn rheolaidd. Anogwch eich plentyn i ddweud wrth rywun y maent yn ymddiried ynddo am unrhyw bryderon sydd ganddo ynglŷn â'r rhyngrwyd.

THINK BEFORE USING SOCIAL MEDIA PLATFORMS

AGE REQUIREMENT

WhatsApp enforces a minimum age of 13 for users in the UK. Therefore anyone under the age of 13 should not be using WhatsApp and is breaching the platform's terms and conditions.

THINK ABOUT THE IMPACT

Consider how your post might affect other people. Avoid content that could embarrass, mislead, insult, or harm someone. Avoid being in large group chats with people that you don't know. Leave groups that become inappropriate and report concerns

PROTECT YOUR PRIVACY

Avoid sharing sensitive personal information such as your address, passwords, phone number, or private details about yourself or others. Understand that screenshots can be taken and shared.

PARENTAL GUIDANCE

Be aware of which apps your children use.
Discuss appropriate online behaviour regularly.
Encourage your child to tell someone they trust about online concerns.

CANLLAWIAU DIOGELWCH AR LEIN I RIENI

CADW PLANT YN DDIOGEL YN Y BYD DIGIDOL



1 DEALL CYFYNGIADAU OEDRAN

Apiau poblogaidd gyda'r oedran isafswm swyddogol e.e

- TikTok 13+
- Instagram 13+
- Snapchat 13+
- YouTube 13+ am gyfrifon 13+
- Facebook 13+
- Discord 13+
- Reddit 13+

PAM? I ddiogelu preifatrwydd, cydymffurfio â chyfreithiau a chyfyngu cysylltiadau a chynnwys i oedolion

2 TIPS DIOGELWCH AR LEIN

1. SEFYDLU RHEOLAETHAU RHIENI

Defnyddiwch osodiadau ap a dyfais i gyfyngu amser sgrin a chynnwys

2. SIARADWCH YN AGORED:

Trafodwch Ôl Troed Digidol, seibrfwlio a ymddygiad cyfrifol

3. DYSGU PREIFATRWYDD

Cadwch eich cyfrifon yn breifat, peidwch byth â rhannu gwybodaeth personol neu cyfrineiriau

4. BYDDWCH YN YMWYBODOL O RISGIAU:

Seibrfwlio, cynnwys amhriodol, ysglyfaethwyr ar lein, twyll.

5. ARWAIN TRWY ESIAMPL:

Dangoswch arferion digidol iach eich hun.

3 ADNODDAU HANFODOL

SOCIALMEDIAAPPS.COM

Gwiriwch canolfannau diogelwch apiau penodol

SAFETYGUIDES.ORG

Cyngor arbenigol i rieni

NATIONAL SAFETY COUNCIL

Cyngor ar ddiogelwch ar lein.

CREU AMGYLCHEDD DIGIDOL DIOGEL GYDA'N GILYDD

ONLINE SAFETY GUIDE FOR PARENTS

KEEPING CHILDREN SAFE IN THE DIGITAL WORLD



1 UNDERSTAND AGE RESTRICTIONS

Popular apps with official age limits e.g.,

- TikTok 13+
- Instagram 13+
- Snapchat 13+
- YouTube 13+ 13+ for accounts
- Facebook 13+
- Discord 13+
- Reddit 13+

WHY? To protect privacy, comply with laws, and limit exposure to mature content.

2 TOP ONLINE SAFETY TIPS

1. SET UP PARENTAL CONTROLS:

Use app and device settings to limit screen time & content.

2. TALK OPENLY:

Discuss digital footprint, cyberbullying, and responsible

3. TEACH PRIVACY:

Keep accounts private, never share personal information or passwords.

4. BE AWARE OF RISKS:

Cyberbullying, inappropriate content, online predators, scams.

5. LEAD BY EXAMPLE:

Show healthy digital habits yourself.

3 ESSENTIAL RESOURCES

SOCIALMEDIAAPPS.COM

- Check specific app safety centers.

SAFETYGUIDES.ORG

Expert advice for parents.

NATIONAL SAFETY COUNCIL

- Online safety tips.

CREATING A SAFER DIGITAL ENVIRONMENT TOGETHER

DIOLCH A CHROESO
THANK YOU AND WELCOME

Hoffem ddiolch yn ddiffuant i Miss Hawis Lloyd am ei chyfraniad gwerthfawr i'n Adran Gymraeg ac i fywyd yr ysgol yn ystod y blynyddoedd. Mae ei hymroddiad i hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi ein disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol a bu'n aelod gwerthfawr o'n staff. Wrth i Hawis ddechrau pennod newydd yn ei gyrfa gyda'r Mudiad Meithrin, hoffem estyn ein diolch am ei gwaith caled a'i hymrwymiad, a dymuno pob llwyddiant a hapusrwydd iddi yn ei rôl newydd.
Pob lwc, Hawis, a diolch am bopeth. Byddwn yn gweld eisiau dy gyfraniad yma yn Ysgol Bro Pedr.



We would like to express our sincere thanks to Miss Hawis Lloyd for her valuable contribution to our Welsh Department and to school life over the years. Her dedication to promoting the Welsh language and supporting our pupils has had a positive impact, and she has been a highly valued member of our staff.
As Hawis begins an exciting new chapter in her career with Mudiad Meithrin, we would like to thank her for her hard work, commitment, and enthusiasm, and wish her every success and happiness in her new role.
Good luck, Hawis, and thank you for everything. Your contribution to Ysgol Bro Pedr will be greatly missed.




Rydym wrth ein bodd yn croesawu Mrs Hedydd Thomas yn ôl i Ysgol Bro Pedr fel athrawes Gymraeg dros dro. Mae gan Mrs Thomas gyfoeth o brofiad ac arbenigedd, ac rydym yn falch iawn ei bod yn ymuno â'n cymuned ysgol unwaith eto.
Croeso'n ôl, Mrs Thomas!

We are delighted to welcome Mrs Hedydd Thomas back to Ysgol Bro Pedr as a temporary Welsh teacher. Mrs Thomas brings a wealth of experience and expertise to the role, and we are very pleased to have her rejoin our school community.
Welcome back, Mrs Thomas!

DIOLCH

THANK YOU

Hoffem estyn ein diolch i Miss Llinos Thomas am ei chyfraniad gwerthfawr i'n hysgol yn ystod ei chyfnod gyda ni fel Cynorthwyydd Addysgu Lefel 2. Er ei chyfnod byr gyda ni, mae ei chefnogaeth, ei phroffesiynoldeb a'i hymrwymiad i les a chynnydd ein disgyblion wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan staff a disgyblion.
Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd i Llinos ar gyfer y dyfodol, a hoffem ddiolch iddi am ei gwaith yn ystod ei hamser yn Ysgol Bro Pedr.



We would like to extend our thanks to Miss Llinos Thomas for her valuable contribution to our school during her time with us as a TA Level 2.
Although her time with us has been relatively short, her support, professionalism and commitment to the wellbeing and progress of our pupils have been greatly appreciated by both staff and students.
We would like to wish Llinos every success and happiness for the future and thank her for her work and dedication during her time at Ysgol Bro Pedr. We are grateful for the positive contribution she has made to our school community.

Gwerthoedd Bro Pedr Values

Cyfrifoldeb Responsibility	Caredigrwydd Kindness	Hapusrwydd Happiness
Empathi Empathy	Gonestrwydd Honesty	Uchelgais Ambition
Dyfalbarhad Perseverance	a fo ben bid bont	Cydraddoldeb Equality
Parch Respect	Ysgol Bro Pedr A fo ben bid bont	Perthyn Belonging

COGURDD POBURDD

Llongyfarchiadau mawr i Sara ym mlwyddyn 7 ar ei llwyddiant arbennig yng nghystadlaethau CogUrdd a PhobUrdd Ceredigion. Rydym yn hynod falch ohoni am ennill cystadleuaeth PobUrdd Blwyddyn 7 a dan 19 oed, camp arbennig iawn gan ei bod ond ym Mlwyddyn 7. Dymunwn yn dda iawn iddi wrth iddi baratoi ar gyfer y rownd derfynol yn Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent 2027. Mae ei llwyddiant, ei hyder a'i hymrwymiad yn glod iddi hi ei hun ac i'r ysgol gyfan. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc, Sara!





Huge congratulations to Sara in Year 7 on her fantastic success in the CogUrdd and PobUrdd Ceredigion competitions. We are incredibly proud of her for winning the Year 7 and Under-19 PobUrdd competition, a remarkable achievement considering she is only in Year 7.
We wish her every success as she prepares for the final at the Urdd Eisteddfod Bro'r Wenynen, Gwent 2027. Her achievement, confidence and dedication are a credit to herself and to the whole school community.
Many congratulations and good luck, Sara!

CORNEL Y CHWECHED
6TH FORM CORNER

6ED BRO PEDR

Cafodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 13 sydd wedi ymuno â Rhaglen Mentora Ymestyn yn Ehangach gyfle i gymryd rhan mewn sesiwn ymgysylltu gyda Caytie Williams yr wythnos hon.
Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar reoli arian yn y brifysgol, gan roi cyngor defnyddiol i'r disgyblion wrth iddynt baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Cafwyd cyfle hefyd i ddysgu mwy am y platfform mentora a sut i gysylltu â'r mentoriaid i ofyn cwestiynau a derbyn cefnogaeth.

This week, a group of Year 13 pupils who have joined the Reaching Wider Mentoring Programme took part in an engagement session with Caytie Williams.
The session focused on managing finances at university, providing pupils with useful advice as they prepare for the next stage of their education. Pupils also had the opportunity to learn more about the mentoring platform and how to connect with mentors to ask questions and receive support.



Cyngor Ieuenctid
Youth Council

Diolch i Elen, Brychan, Mali ac Alma am gynrychioli'r ysgol yng Nghyngor Ieuenctid Ceredigion. Byddant yn cael cyfle i rannu syniadau, trafod materion sy'n bwysig i bobl ifanc a helpu i lunio dyfodol y sir. Braf gweld ein disgyblion yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed!



Thank you to Elen, Brychan, Mali and Alma for representing the school at Ceredigion Youth Council. They will have the opportunity to share ideas, discuss issues that matter to young people and help shape the county's future. It's great to see our pupils ensuring that young people's voices are heard!

DIGWYDDIAD SYR KARL JENKINS – LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Ar brynhawn y 10fed o Dachwedd, cafodd grwp o ddisgyblion blwyddyn 9 y braint a'r anhrydedd i gwrdd ag un o gyfansoddwyr mwyaf adnabyddus a blaengar Cymru, Syr Karl Jenkins. Yn frodorol o Benclawdd ger Abertawe, mae Syr Karl Jenkins yn gyfansoddwr adnabyddus ar draws y byd, yn enwedig am ei weithiau cerddorol i hysbysebion teledu megis Audi, British Airways, Delta Airlines a diamwntau De Beers, yn ogystal a'i weithiau corawl Adiemus, a hefyd Cantata Memoria, er cof am y plant o drychineb Aberfan. Yn fwyaf diweddar, fe wnaeth un o ddarnau Syr Karl Jenkins cael ei berfformio yn seremoni coroni y Brenin Siarl.

Cafodd y disgyblion cyfle i wrando ar berfformiad o'r darn Benedictus, o'i waith The Armed Man, a hefyd holi cwestiynau iddo a chael cyngor wrtho am gyfansoddi cerddoriaeth. Da iawn i Pippa, Harley a Daniela am holi cwestiynau iddo gan gynnwys: 'What can a performer bring to a piece that you did not anticipate?', 'How do you know when a composition is finished?' a 'How do you decide which instruments or voices should carry an idea?'

Cafodd y disgyblion prynhawn bythgofiadwy, yn cwrdd ac yn trafod cerddoriaeth gyda un o mawrion Cymru. Mae archif o'i waith i'w gweld yn y Llyfrgell Genedlaethol.









Sir Karl Jenkins Event National Library of Wales

On the afternoon of 10 November, a group of Year 9 pupils had the privilege and honour of meeting one of Wales' most renowned and innovative composers, Sir Karl Jenkins.

Originally from Penclawdd, near Swansea, Sir Karl Jenkins is an internationally acclaimed composer, particularly known for his music featured in television advertisements for companies such as Audi, British Airways, Delta Airlines, and De Beers Diamonds. He is also celebrated for his choral works, including Adiemus and Cantata Memoria, which was composed in memory of the children who lost their lives in the Aberfan disaster. More recently, one of Sir Karl Jenkins' compositions was performed at the coronation ceremony of King Charles III.

The pupils had the opportunity to listen to a performance of Benedictus from his work The Armed Man, as well as ask him questions and receive advice about composing music. Well done to Pippa, Harley and Daniela for asking thoughtful questions, including: "What can a performer bring to a piece that you did not anticipate?", "How do you know when a composition is finished?" and "How do you decide which instruments or voices should carry an idea?"

The pupils enjoyed an unforgettable afternoon, meeting and discussing music with one of Wales' most distinguished musicians. An archive of Sir Karl Jenkins' work can be found at the National Library of Wales.








SGILIAU BYWYD
LIFE SKILLS



Llongyfarchiadau mawr i Archie, sydd wedi ymuno â'r Army Cadets yn ddiweddar! Roedd Archie wrth ei fodd yn rhannu'r newyddion gyda'i ffrindiau yn y dosbarth Sgiliau Bywyd, gan sôn am yr holl weithgareddau cyffrous mae'n edrych ymlaen atynt, yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r sgiliau newydd y bydd yn eu datblygu fel Cadet. Roedd yn braf iawn gweld ei frwdfrydedd a'i falchder wrth drafod ei lwyddiant diweddar. Dymunwn bob hwyl a llwyddiant i Archie wrth iddo gychwyn ar y bennod gyffrous newydd hon, ac edrychwn ymlaen at glywed am ei gyflawniadau yn y dyfodol.

Congratulations to Archie, who has recently joined the Army Cadets!
Archie was delighted to share his news with his friends in Life Skills, talking enthusiastically about the exciting activities he is looking forward to taking part in, as well as the responsibilities and new skills that come with being a Cadet. It was wonderful to see his enthusiasm and pride as he spoke about this recent achievement.
We wish Archie every success as he begins this exciting new chapter and look forward to hearing about his future accomplishments.

SGILIAU BYWYD
LIFE SKILLS





Cafodd disgyblion y dosbarth Sgiliau Bywyd gyfle gwerthfawr i ddysgu mwy am waith yr heddlu, sut maent yn helpu i gadw ein cymunedau'n ddiogel, a phwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cefnogi pobl bob dydd.

Diolch yn fawr i PC Hannah am ymweld â ni ac am rannu ei gwybodaeth a'i phrofiadau gyda'r disgyblion. Cafodd pawb gyfle i ofyn cwestiynau diddorol ac i ddysgu mwy am rôl bwysig yr heddlu yn ein cymdeithas.

Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r ymweliad yn fawr ac wedi elwa o'r profiad.

The Life Skills pupils had a valuable opportunity to learn more about the work of the police, how they help to keep our communities safe, and the important role they play in supporting people every day.

A huge thank you to PC Hannah for visiting us and sharing her knowledge and experiences with the pupils. Everyone enjoyed the session and had the opportunity to ask interesting questions and learn more about the vital role of the police in our society.

The pupils thoroughly enjoyed the visit and gained a great deal from the experience.


SGILIAU BYWYD
LIFE SKILLS

Mae disgyblion sgiliau bywyd wedi bod yn brysur yn cefnogi'r Sied Siario ar gampws yr Ysgol Gynradd. Buont yn didoli, trefnu a pharatoi gwisgoedd ysgol ail-law er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr da ac yn barod i gael eu defnyddio gan deuluoedd yn y dyfodol.
Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i'r disgyblion wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned, datblygu sgiliau trefnu a chyfrifoldeb, a deall pwysigrwydd ailddefnyddio adnoddau a lleihau gwastraff. Mae eu hymrwymiad, eu gwaith caled a'u parodrwydd i helpu eraill yn glod mawr iddynt.
Da iawn i bawb am eich ymdrechion arbennig!









The pupils have been busy supporting the Sharing Shed on the Primary School campus. They have been sorting, organising and preparing pre-owned school uniforms to ensure they are in good condition and ready to be used by families in the future.
This was a valuable opportunity for the pupils to make a positive contribution to the community, develop their organisational skills and sense of responsibility, and gain an understanding of the importance of reusing resources and reducing waste. Their commitment, hard work and willingness to help others are a real credit to them.
Well done to everyone for your outstanding efforts!

FFUG GYFWELIADAU 13
YEAR 13 MOCK INTERVIEWS

On Friday, our Year 13 students took part in a valuable Mock Interview Day, organised by Careers Wales Careers to help prepare them for their next steps beyond school.
Students were given the opportunity to experience realistic interviews with a range of employers, education providers and organisations. The interviews helped them develop their communication skills, build confidence and gain valuable feedback on their performance in a professional setting.
We are extremely grateful to all the organisations that gave their time to support our students, including Wynne Construction, Hywel Dda University Health Board, Dunbia, Menter Gorllewin Sir Gâr, Coleg Sir Gâr/Coleg Ceredigion, Barcud, WeCare Wales, QinetiQ, Aberystwyth University and UWTSD.
The experience provided our students with a greater understanding of what employers and further education providers are looking for, while also helping them to reflect on their strengths, achievements and future aspirations.
A huge thank you to all the interviewers for sharing their expertise and helping our Year 13 students take another important step towards their future careers. We are very proud of the professionalism, maturity and enthusiasm shown by all students throughout the day.

Ar ddydd Gwener, cafodd disgyblion Blwyddyn 13 gyfle gwerthfawr i gymryd rhan mewn Diwrnod Cyfweliadau Ffug, a drefnwyd gan yr Adran Gyrfaoedd i'w helpu i baratoi ar gyfer eu camau nesaf ar ôl gadael yr ysgol. Rhoddwyd cyfle i'r myfyrwyr brofi cyfweliadau realistig gydag ystod eang o gyflogwyr, darparwyr addysg bellach ac uwch, a sefydliadau proffesiynol. Roedd y profiad yn eu helpu i feithrin hyder, datblygu eu sgiliau cyfathrebu, a chael adborth gwerthfawr ar eu perfformiad mewn sefyllfa broffesiynol.
Hoffem ddiolch yn fawr i'r sefydliadau a roddodd o'u hamser i gefnogi ein myfyrwyr, gan gynnwys Wynne Construction, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Dunbia, Menter Gorllewin Sir Gâr, Coleg Sir Gâr/Coleg Ceredigion, Barcud, WeCare Wales, QinetiQ, Prifysgol Aberystwyth ac UWTSD.
Roedd y cyfweliadau'n gyfle gwych i'r disgyblion gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae cyflogwyr a darparwyr addysg yn chwilio amdano, yn ogystal â myfyrio ar eu cryfderau, eu cyflawniadau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.
Diolch yn fawr i'r holl gyfwelwyr am rannu eu harbenigedd a'u profiad. Rydym yn falch iawn o'r proffesiynoldeb, yr aeddfedrwydd a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan ein myfyrwyr Blwyddyn 13 drwy gydol y dydd. Roedd yn brofiad gwerth chweil a fydd yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus wrth baratoi ar gyfer eu camau nesaf tuag at addysg bellach, prentisiaethau neu gyflogaeth.





DIGWYDDIAD RHWYDWEITHIO GYRFAOEDD CYFLYM BLWYDDYN 7

